Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Defnydd Geiriaduron a Chyfrifianellau mewn Arholiadau

## Cynnwys

..... 1
1. Defnydd Geiriaduron mewn Arholiadau ..... 3
2. Defnydd Cyfrifianellau mewn Arholiadau ..... 3
3. Asesiad Effaith ..... 4
4. Awdur y polisi ..... 4
5. Rheoli Fersiynau Dogfennau ..... 4

# 1. Defnydd Geiriaduron mewn Arholiadau

1.1. Efallai y bydd rhai modylau'n gwahardd defnydd geiriaduron mewn profion cwrs neu arholiadau (er enghraifft, os diben yr asesiad yw rhoi prawf ar gynhwysedd mewn iaith); caff hyn ei nodi ar bapur yr arholiad/prawf. Caiff myfyrwyr wybod cyn yr arholiad/prawf.

1.2. Yn achos rhai modylau, mae angen defnyddio geiriadur dwyieithog penodol (Gymraeg/iaith darged Saesneg/iaith darged neu) yn ystod profion arholiadau; rhoddir manylion y rhain ar yr arholiad/papur prawf. Caiff myfyrwyr wybod cyn yr arholiad/prawf.

1.3. Ym mhob achos arall, gallwch ddefnyddio geiriadur mewn unrhyw arholiad neu brawf cwrs.

1.4. Eich cyfrifoldeb chi yw darparu eich geiriadur eich hun a rhaid i'r geiriadur hwnnw:

1.4.1. fod yn un papur, oni bai fod gennych addasiad asesu cymeradwy sy'n caniatáu geiriadur ar ffurf arall

1.4.2. bod o fath sydd ar restr geiriaduron cymeradwy'r Brifysgol

1.4.3. bod yn rhai Cymraeg/Saesneg i iaith estron, iaith estron i Gymraeg/Saesneg a/neu iaith estron i iaith estron

1.4.4. peidio â bod yn eiriadur technegol sy'n cynnwys pethau heblaw am gyfieithiadau syml (h.y. geiriadur cyfieithu)

1.4.5. bod heb unrhyw nodiadau, tabiau, nac anodiadau heblaw am eich enw. Caiff unrhyw nodiadau, tabiau neu anodiadau a ddarganfyddir mewn geiriadur eu trin yn dystiolaeth o fwriad i gyflawni gweithred o gamymddwyn academaidd.

1.5. Mae Atodiad 1 yn rhestru geiriaduron neu gyfresi geiriaduron a gymeradwyir gan y Brifysgol.

1.6. Mae amrywiaeth eang o ieithoedd wedi eu cynnwys yn y rhestr uchod. Fodd bynnag, dylai unrhyw fyfyriwr sy'n cael trafferth dod o hyd i un o'r geiriaduron uchod yn ei (h)iaith ei hun ac sy'n dymuno cyflwyno geiriadur arall i'w gymeradwyo gysylltu â'r Swyddfa Academaidd i gael rhagor o arweiniad (ansawdd@pcydds.ac.uk).

1.7. Dylai myfyrwyr nodi y gellid gwirio geiriaduron ym mhob arholiad neu brawf cwrs ac ni chaniateir iddynt ddefnyddio dim ond y rhai sydd ar y rhestr gymeradwy. Caiff geiriaduron nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion uchod eu cymryd ymaith ar gyfer gweddill yr arholiad neu'r prawf cwrs.

1.8. Os canfyddir bod gennych nodiadau yn eich geiriadur (neu unrhyw le arall) caiff ei adrodd yn achos o gamymddwyn academaidd. Ni chaiff eich geiriadur ei ddychwelyd i chi nes y cynhelir ymchwiliad llawn i'r achos.

# 2. Defnydd Cyfrifianellau mewn Arholiadau

2.1. Caniateir cyfrifianellau yn unig pan nodir hynny'n glir ar yr arholiad neu'r prawf cwrs.

2.2. Ni chaniateir dyfeisiau 'clyfar' sy'n cysylltu â'r rhyngrwyd mewn unrhyw arholiad neu brawf cwrs.

2.3. Os cewch eich dal â dyfais 'glyfar' caiff hynny ei adrodd yn achos o gamymddwyn academaidd. Ni chaiff eich dyfais ei dychwelyd i chi nes y cynhelir ymchwiliad llawn i'r achos.

## 3. Asesiad Effaith

| **Goblygiad** | **Ystyriwyd yr Effaith (Do/Naddo)** | **Yr Effaith a Nodwyd** |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | Do | *Mae'r polisi'n cydymffurfio â'r canlynol:*<br>- *Cyfraith contractau a defnyddwyr*<br>- *Deddf Hawliau Dynol 1998*<br>- *Deddf Cydraddoldeb 2010*<br>- *Cyfiawnder Naturiol (tegwch)*<br>- *Deddf Diogelu Data 2018 (a GDPR)* |
| Cyfraniad at y Cynllun Strategol | Do | *Mae'r polisi'n cydymffurfio â'r gwerthoedd a fynegwyd yn y Cynllun Strategol.* |
| Dadansoddi Risg | Do | *Mae cydymffurfio â'r Polisi yn lliniaru cwynion i'r SDA, a chwynion i'r ICO.* |
| Cydraddoldeb | Do | *Bydd y polisi'n sicrhau y cedwir at ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb.* |
| Yr Iaith Gymraeg | Do | *Mae'r polisi'n cyd-fynd â'r egwyddorion a fynegir yn Neddf yr Iaith Gymraeg.* |
| Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | Do | *Dim wedi eu dynodi.* |
| Cyfathrebu / Cyfryngau / Marchnata | Do | *Bydd y polisi ar gael i'r staff a'r myfyrwyr drwy'r MyDay a'r wefan.* |

## 4. Awdur y polisi

4.1. Dr Kyle Erickson, Cyfarwyddwr Profiad Academaidd

## 5. Rheoli Fersiynau Dogfennau

| Rhif y Fersiwn | Rheswm dros y newid | Awdur | Dyddiad Newid |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Polisi Drafft | KE | 07.11.2019 |

**Statws presennol y Polisi:** Cymeradwywyd

**Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol:** AU

**Dyddiad ei gadarnhau gan y Pwyllgor Safonau Academaidd:** 11/12/2019

**Dyddiad y daw i rym:** 01/02/2020

**Dyddiad adolygu'r polisi:** 01/06/2020

**I'w gyhoeddi:** ar wefan Y Drindod Dewi Sant

Atodiad 1:

Rhestr o Eiriaduron neu Gyfresi Geiriaduron Cymeradwy’r Brifysgol

- Berlitz Compact
- Berlitz Pocket
- Collins Gem
- Collins Pocket
- Langenscheidt Universal
- Oxford Pocket
- Oxford Mini
- Oxford Compact
- Liddell and Scott, Abridged Greek English Lexicon
- Cassell's Standard Latin Dictionary
- A Student’s Dictionary of Classical and Medieval Chinese. By Paul W. Kroll. Leiden: Brill, 2015.